

ffotogallery

Ffotogallery Cymru Cynllun y Gymraeg 2020/21

Cafodd y cynllun hwn ei baratoi yn unol â Chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Yn dilyn mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, lanswyd y strategaeth *Cymraeg 2050* ym mis Gorffennaf 2017. Mae'n nodi dull tymor hir Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd yr ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys hefyd yn Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, y Rhaglen Lywodraethu. I wireddu'r weledigaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu tair thema strategol:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cyflwyniad

Cenhadaeth Ffotogallery yw datblygu gweithrediad, dealltwriaeth a mwynhad o ffotograffiaeth gyfoes a chyfryngau'r lens, yng Nghymru a thu hwnt. Ein nod yw cyfoethogi profiad cynulleidfaoedd a chyfranogwyr drwy raglenni artistig ac addysgol sy'n unigryw, yn arloesol ac yn ysgogol.

I weithredu'r genhadaeth hon, mae Ffotogallery yn mabwysiadu agwedd gynhwysol ac eang tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth – un sy'n ymdrin yn gynyddol â'r nodweddion gwarchoddedig sy'n derbyn sylw yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae Cynllun y Gymraeg Ffotogallery yn mynegi'r bwriad hwn mewn perthynas â defnyddio'r iaith Gymraeg yn ein hymwneud â chynulleidfaoedd a defnyddwyr ein gwasanaethau yng Nghymru. Rydym hefyd yn alinio ein gweithgareddau gyda themâu strategol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a *Cymraeg 2050*.

Ein gwaith

Mae Ffotogallery wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ddarparu ei wasanaethau yng Nghymru, yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal fel sy'n briodol ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Yn unol â hynny, mae'n mynd ati i sicrhau bod pawb sy'n cysylltu â'r sefydliad ac yn defnyddio ei wasanaethau yng Nghymru'n gallu derbyn y gwasanaethau hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg lle bo'n briodol ac yn ymarferol, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb.

Bydd y cyhoedd yn cael gwybod am fodolaeth y cynllun a'i gynnwys drwy wefan Ffotogallery.

Gall unrhyw un sy'n teimlo nad yw'r gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn yn cydymffurfio â'r cylch gwaith sydd wedi ei nodi yn y Cynllun gyflwyno eu sylwadau i'r Cyfarwyddwr mewn ysgrifen. O fewn deg diwrnod i dderbyn eu sylw, byddent yn derbyn ymateb ysgrifenedig yn yr un iaith â'u sylw. Mae'r sylwadau hyn, ynghyd â'r ymateb, yn cael eu cofnodi a'u ffeilio at ddibenion monitro.

Cynllun y Gymraeg 2020/21

1. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau		
<p>Wrth gynllunio a darparu ei waith yng Nghymru, bydd Ffotogallery yn archwilio'r ffordd orau o ddatblygu a hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y celfyddydau.</p> <p>Nod Ffotogallery yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Yn unol â'r cynllun gweithredu isod, byddwn yn gweithio tuag at y targed hwn drwy:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog defnyddwyr gwasanaeth Ffotogallery yng Nghymru i deimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw eisiau gwneud hynny • Sicrhau bod staff yn hyderus a chyfforddus eu bod yn gwybod sut i ymateb i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg • Defnyddio gwasanaethau cyfieithu o safon uchel i sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol wedi ei gyfieithu'n gyflym ac yn ddibynadwy • Adolygu'n rheolaidd y canrannau o ymholiadau neu gyfranogwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yng ngwasanaethau neu weithgareddau Ffotogallery o'i gymharu â'r manylion demograffig disgwylidig 		
Cam Gweithredu	Mesur	Arweinydd
Archwilio'r ffordd gorau o ddatblygu a hybu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yng ngwaith Ffotogallery	– Sicrhau bod y prosesau cynllunio a darparu'n rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ffordd y mae'r sefydliad yn mynd ar ôl ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg	Staff, dan arweiniad y Cyfarwyddwr
Defnyddio gwaith partneriaeth i dargedu a	– Datblygu partneriaethau gydag Arts & Business a	Y Cadeirydd (sy'n siarad Cymraeg) gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr

recriwtio aelodau newydd o'r Bwrdd sy'n siarad Cymraeg, yn unol â bylchau mewn sgiliau a ganfuwyd drwy'r rhaglen gydnherthu	Disability Arts Cymru i ganfod darpar-aelodau newydd ar gyfer y Bwrdd.	
---	--	--

2. Cyfathrebu

Mae Ffotogallery yn croesawu cyfathrebu gydag aelodau, grwpiau ac unigolion eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd ac yn amcannu i drin y ddwy iaith yn gydradd.

Bydd gohebiaeth ysgrifenedig rhwng Ffotogallery a defnyddwyr ei wasanaethau yng Nghymru drwy gyfrwng y Saesneg fel arfer. Ond, os gofynnir, gallwn ymateb i ymholiadau yn y Gymraeg o fewn 14 diwrnod. Bydd taflenni newyddion, negeseuon e-bost i danysgrifwyr a dogfennau eraill o'r fath yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

Rydym wedi pennu dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg yn faes sydd angen ei gryfhau yn nhermau staff craidd, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr.

Mae ein brand corfforaethol a'n his-frand Diffusion yn cynnwys rhywfaint o Gymraeg. Byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal pan fyddwn yn adolygu ein brand corfforaethol y tro nesaf. Bydd y ddwy iaith yn gydradd o ran maint, fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Cam Gweithredu	Mesur	Arweinydd
Ystyried sut y gallai Ffotogallery ddenu ceisiadau am swyddi staff a	<ul style="list-style-type: none"> Gwneud gwaith ymchwil i ganfod ac ymdrin â'r rhwystrau presennol 	Rheolwr Gweithrediadau

<p>chyfleoedd gwirfoddoli gan unigolion sy'n siarad Cymraeg</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Gweithio gyda grwpiau cydraddoldeb arbenigol i hybu gwell dealltwriaeth o rolau a chyfleoedd a gynigir gan Ffotogallery i grwpiau sy'n siarad Cymraeg - Archwilio lleoliadau profiad gwaith a hyfforddiant, a phrentisiaethau sydd wedi eu targedu ar gyfer unigolion sy'n siarad Cymraeg 	
<p>Sicrhau bod y gwasanaethau cyfieithu a chymorth o safon uchel ac y gellir eu trefnu'n brydlon</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cynyddu'r gronfa o gyfieithwyr sydd â chymwysterau priodol - Ymgynghori â'r gwasanaethau cymorth a chynghori ynghylch y Gymraeg i wella arferion sefydliadol 	<p>Cydlynnydd Cynhyrchu</p>

3. Rhaglennu

Mae Ffotogallery yn ceisio comisiynu a chyflwyno gwaith gan artistiaid sy'n siarad Cymraeg neu sy'n cynhyrchu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn i gyflwyno eu gwaith yn rhyngwladol, ac i ddarparu prosiectau allanol a rhaglenni ymgysylltu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog pan gânt eu comisiynu i wneud hynny.

Bydd y cyhoeddiadau hynny a grëir gan Ffotogallery, sydd ar-lein ac wedi eu hargraffu, ac y maent wedi eu bwriadu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, wedi eu cynhyrchu yn gyffredinol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys defnydd esbonio sy'n gysylltiedig ag arddangosfeydd, catalogau neu fonograffau artistiaid, ac adnoddau dysgu. Lle bo'n ymarferol, bydd dogfennau'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu bydd fersiynau cryno'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Y flaenoriaeth sydd wedi bod gennym yw cynyddu cynnwys iaith Gymraeg Diffusion, mewn print ac ar ffurf electronig, a chyhoeddi cyhoeddiadau cwbl ddwyieithog sy'n gysylltiedig ag arddangosfa Tir/Môr Mike Perry, Dreamtigers a Chronicle, i ddathlu 40 mlynedd o Ffotogallery. Penodwyd tri intern cyflogedig gennym sy'n siarad Cymraeg ar gyfer Diffusion 2019, a chyflwynwyd gwaith gan John Rea, Huw Talfan Walters, Huw Davies a Peter Finnemore ymysg artistiaid eraill o Gymru.

Cam Gweithredu	Mesur	Arweinydd
Gwella'r cynnwys creadigol a ddarperir yn ddwyieithog, i gael ei gyflwyno mewn arddangosfeydd, ar-lein ac ar ffurf print	<ul style="list-style-type: none">– Cynhyrchu a chyflwyno mwy o wybodaeth ddwyieithog am artistiaid ac arddangosfeydd, ysgrifennu cyd-destunol ac adnoddau dysgu– Comisiynu a chyflwyno gwaith newydd gan o leiaf ddau artist sy'n siarad Cymraeg	Cyfarwyddwr/Cydlynnydd Cynhyrchu
Cyhoeddi'r holl gyhoeddiadau print ac ar-lein yn ddwyieithog gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â Diffusion ac	<ul style="list-style-type: none">– Creu cynnwys dwyieithog ar gyfer adnoddau dysgu a chyhoeddiadau sy'n gysylltiedig ag arddangosiadau Ffotogallery	Cyfarwyddwr/Cydlynnydd Cynhyrchu

arddangosiadau Ffotogallery a phrosiectau sydd â ffocws ar Gymru	– Creu cynnwys dwyieithog ar gyfer Diffusion 2021 a'u cyhoeddi	
--	---	--

4. Gweithio gyda'r wasg a'r cyfryngau

Mae Ffotogallery wedi ymrwmo i weithio gyda'r wasg a sefydliadau'r cyfryngau yng Nghymru sy'n gweithio yn y ddwy iaith. Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu creu yn y ddwy iaith ac yn cael eu cyhoeddi naill ai'n ddwyieithog neu i'r cyfryngau priodol yn eu hiaith berthnasol ar yr un pryd.

Cam Gweithredu	Mesur	Arweinydd
Datblygu perthnasoedd gyda'r wasg a'r cyfryngau cyfrwng Cymraeg	<ul style="list-style-type: none"> – Cynhyrchu a dosbarthu datganiadau i'r wasg a briffiau Cymraeg – Datblygu perthnasoedd gyda golygyddion a newyddiadurwyr yn y wasg a'r sector cyfryngau cyfrwng Cymraeg 	Rheolwr gweithrediadau

5. Gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol

--

Mae gwefannau Ffotogallery a Diffusion yn wefannau drych sy'n cynnig yr un wybodaeth am artistiaid, arddangosfeydd a gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn dibynnu ar ddewis y defnyddiwr. Yn gyffredinol, bydd cynnwys cyfoethog fel fideos, podlediadau ac adnoddau rhyngweithiol wedi eu hysgrifennu yn Saesneg, ond rydym yn croesawu cynnwys sydd wedi'i greu yn y Gymraeg.

Er mwyn i ni allu parhau'n ymatebol a rhagweithiol yn ein gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol, dim ond nifer gyfyngedig o gyfathrebiadau cyfryngau cymdeithasol fydd yn cael eu darparu'n ddwyieithog, er ein bod yn amcannu i gynyddu maint ac amllder postiadau Cymraeg yn y cyfryngau cymdeithasol.

Cam Gweithredu	Mesur	Arweinydd
Datblygu gwefan ddrych ddwyieithog Ffotogallery i wella dewis a phrofiad y defnyddiwr, i gyfoethogi'r cynnwys ac i wella'r llywio	Ail ddylunio ac ail adeiladu'r platform gan sicrhau bod y gwelliannau'n gweithio yn y ddwy iaith	Cyfarwyddwr/Cydlynnydd Cynhyrchu
Cynyddu nifer ac amllder y postiadau iaith Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol	Adeiladu arbenigedd a gallu o fewn y cwmni o ran arferion cyfrwng Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol	Cydlynnydd Cynhyrchu

6. Staffio

I sicrhau bod lefelau priodol o arbenigedd yn yr iaith Gymraeg ar gael i'r staff, mae Ffotogallery yn:-

- Adolygu pob swydd ar adeg y penodi, asesu pa mor fanteisiol fyddai gallu yn y Gymraeg a lefel y Gymraeg sy'n ofynnol i'w chyflawni, hysbysebu'r gofyniad hwnnw ac asesu'r gofyniad wrth benodi.
- Adolygu gallu ieithyddol y staff yn Ffotogallery, asesu a yw'r gallu cyffredinol yn ddigonol ac, os oes diffyg, gwneud penderfyniadau penodol am recriwtiad a hyfforddiant.
- Cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff er mwyn cynyddu eu gallu ac fel cyfle datblygu personol iddynt, a'u hannog i fanteisio ar hyfforddiant o'r fath.

Bydd dealltwriaeth o Gynllun y Gymraeg yn rhan hanfodol o gyflwyniad cynefino staff newydd yn Ffotogallery.

Cam Gweithredu	Mesur	Arweinydd
Adolygu gallu ieithyddol y staff ac addasu'r prosesau recriwtio a hyfforddi fel y bo'r angen.	Ar gyfer pob swydd newydd, asesu pa mor fanteisiol yw'r Gymraeg a'r lefel o Gymraeg sy'n ofynnol i'w chyflawni, hysbysebu'r gofyniad hwnnw ac asesu'r gofyniad wrth benodi Defnyddio yr un egwyddorion wrth recriwtio gweithwyr llawrydd ac interniaid	Y Rheolwr Gweithrediadau
Cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i gynyddu gallu	Adeiladu'r gallu a'r arbenigedd o fewn y cwmni yn nhermau'r defnydd a wneir o'r Gymraeg	Y Rheolwr Gweithrediadau

7. Monitro a gwerthuso

Gan Fwrdd Ffotogallery y mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod y cynllun yn cael ei fonitro

Bydd y dulliau monitro a gwerthuso'n cynnwys:-

- Adolygu cwynion a mesurau a gymerir i ymdrin â nhw
- Monitro cyfathrebu Ffotogallery â phobl eraill drwy samplu
- Monitro'r ymatebion i gyfathrebiad sy'n dod i mewn drwy samplu
- Goruchwyllo deunyddiau hyrwyddo ac arddangos
- Monitro ceisiadau am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwneud asesiad o gydbwysedd ieithyddol y defnyddwyr gwasanaeth neu'r cyfranogwyr mewn gweithgareddau o'i gymharu â'r cydbwysedd sydd yn y boblogaeth berthnasol

Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad am y cynllun a'i weithrediad yn flynyddol.

Cam Gweithredu	Mesur	Arweinydd
Adolygu Cynllun y Gymraeg a'i weithrediad	Sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu yn unol â blaenoriaethau ac ymrwymadau y cytunwyd arnynt	Y Bwrdd
Parhau i wella a mireinio dulliau Ffotogallery o hybu a datblygu'r iaith Gymraeg	Gweithredu argymhellion o'r broses adolygu, gan gynnwys arferion newydd fel y bo'n briodol a rhesymol	Rheolwr Gweithrediadau